Jo Whitehead
Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

5 Chwefror 2021

Annwyl Brif Weithredwr

**Adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru:**

**Adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd**
**Trefniadau ar gyfer Penodiadau Uwch Staff Dros Dro – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Yn gyntaf hoffwn eich croesawu i'ch rôl a dymuno'n dda ichi ar eich penodiad newydd.

Ystyriodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr ymateb manwl, dyddiedig 16 Rhagfyr 2020, gan Gill Harris, y Prif Weithredwr dros dro ar y pryd, i Adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru y cyfeirir atynt uchod. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r ymateb o ran Adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd ond nododd y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cadw brîff gwylio ar lywodraethu a threfniadau rheoli ariannol cyffredinol y Bwrdd fel rhan o'i waith archwilio lleol.

Gyda golwg ar yr ymateb o ran y trefniadau staff dros dro, byddwn yn croesawu cael rhagor o fanylion ar y perfformiad a'r enillion ariannol a sicrhawyd, sef lle'r oedd gwaith y Cyfarwyddwr Adfer dros dro yn canolbwyntio. Nodwn y pryderon a godwyd yn Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru fod y gyfradd gyflog a dalwyd yn uwch na'r rhan fwyaf o'r cymaryddion meincnod a ddefnyddiwyd. A allech egluro a oedd y gyfradd ddyddiol a dalwyd i'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro a chost cyffredinol ei wasanaethau yn rhoi gwerth am arian.

A allwch hefyd ddarparu manylion am effaith gwaith y Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro ac eglurhad llawnach ynghylch pam mae'r ymateb gan y Bwrdd Iechyd yn awgrymu bod y gyfradd ddyddiol a dalwyd yn unol â chyfraddau'r farchnad.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddArchwilio@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAC@senedd.wales
0300 200 6565

Byddwn yn croesawu cael eich ymateb erbyn 26 Chwefror.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.